"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Cyfres Newydd.] RHAGFYR, 1887. [Rhif 76.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Llythyr Davis, Castell Hywel	265
"Gadewch i Blant Bychain Ddyfod Ataf Fi."	268
Enwogion Annghofiedig.	268
I Bwy mae Duw yn Dad?	270
"Bydd Hynaws."	274
Nodynau Gwasgarog	275
Manion a Hanesion	282
Marwgofion	284

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] RHAGFYR, 1887. [RHIF 76.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

LLYTHYR DAVIS, CASTELL HYWEL.

YR wyf yn barnu y bydd y llythyr canlynol, yr hwn a gyfieithais o'r Saesoneg (gwel *Ch. Ref.*, 1815, *p.* 195) yn dderbyniol gan fwyafrif darllenwyr YR YMOFYNYDD. Yr wyf yn casglu ei fod wedi ei ysgrifenu at ei ferch-yn-nghyfraith (gwraig y Parch. Tim. Davis) ar amser afiechyd ei mam. Bu farw'r fam y dydd cyn derbyniad y llythyr, a dywedir fod y llythyr wedi esmwythau llymdra'r tristwch i raddau mawr. Yn y *Mon. Rep.*, 1814, *p.* 367, mae marwgof Mrs. Elizabeth New, gwraig Mr. A. New, *woolstapler*, Evesham, yr hon a fu farw o'r dyfrglwyf, Mai 24, 1814, yn 59 oed.

"Ll——n, Mai 19, 1814.

"Yr wyf yn cymmeryd fy nghenad, Eliza anwyl, i'ch anerch, mewn ychydig o ystyriaethau cyssurlawn, ar adeg eich pryder trist presenol yn nghylch pa beth fydd canlyniad afiechyd peryglus eich mam dyner. Rhaid fod eich tynerwch a'ch serch fel plentyn yn cydymdeimlo yn ddwfn ar achlysur mor brofedigaethus; mae genych reswm i ymofidio yn yr ofn o golli arweinydd ffyddlon eich ieuenctid anmhrofiadol yn llwybrau gwybodaeth, doethineb, rhinwedd, crefydd, heddwch, a dedwyddwch. Dylai'r adgof o'i hannogaethau rhagorol, ei rhinweddau teilwng, ei serchiadau cariadus, i ryw raddau, gymmedroli, ar yr un pryd ag y mae yn *cynhyrfu* eich galar. Onid oes genych reswm i edmygu a moli daioni neillduol Duw, ei fod erioed wedi rhoddi i chwi, a pharhau cyhyd, fam mor ddoeth, mor deilwng, mor ofalus am eich hawddfyd a'ch dedwyddwch? Dylai ei chynghorion, ei hymddyddanion, a'i haddysg roddi i chwi bleser newydd bob tro y meddyliwch am danynt trwy weddill eich pererindod. Os na

chewch eu *clywed* byth mwy, galwch hwy yn fynych i gof, a rhoddant i chwi gyfarwyddiadau parhaol a chyssuron esmwythaol trwy ofalon a thrafferthion bywyd.

"Nid yn ddiweddar yr hyspyswyd chwi gyntaf fod ei chorff yn farwol, ac y byddai, yn ol cwrs cyffredin Rhagluniaeth, yn debyg o'ch rhagflaenu i drigfanau'r meirw. Onid yw'r nefoedd mewn trugaredd wedi estyn ei dyddiau a'i defnyddioldeb i hcnaint da? Onid oedd yn bryd iddi gael gorphwys oddiwrth ei llafur, ar ol gwasanaethu Duw a'i chenedlaeth gyda'r fath ffyddlondeb a llwyddiant? A gawn ni fod mor anngharedig i'n rhieni anwyl ag i ddymuno iddynt oroesi eu defnyddioldeb a'u cyssur am flynyddoedd o boen a thristwch? Mae Duw yn fwy doeth a graslawn wrth eu cymmeryd i orphwys ac i huno yn yr Iesu. Os galarwn am ein colled o'u cwmni siriol, llawenhawn hefyd am eu hennill hwy, wrth gael eu symmud oddiwrth drallod a thristwch i drigfanau y cyfiawnion.

"Nis gallwch alaru fel y gwna'r annghredinwyr, heb obaith; fe ddichon i ddagrau serch a diolchgarwch ddylifo'n ffrydiau, ond etto, dylent gael eu tymheru gan obeithion cyssurlawn anfarwoldeb. Yn ein galar, ystyriwn eu rhinweddau a'u rhagoriaethau, a phenderfynwn yn ein dydd fod yn gaulynwyr y cyfryw hyny ydynt, trwy ffydd ac amynedd, wedi etifeddu yr addewidion, trwy droedio yn eu camrau, a dysgu i'n plant yr egwyddorion da a ddysgasant hwy i ni, a gwasanaethu Duw yn ein cenedlaeth, fel y gallom orpheu ein gyrfa yn llawen, a chael cyfarfod llawen yn nghymdeithas gyffredinol y cyfiawnion heb fyth ymadael mwy.

"Oedran dyn ar gyfartaledd yw deng mlwydd ar ugain; mae Mrs. N. wedi byw dwy genedlaeth—60, fel y tybiaf. Onid yw yn rhyfeddod mwy ei bod wedi byw cyhyd na'i bod wedi marw mor fuan? Chwi fyddwch, yn mhen ychydig flynyddau, yn dywedyd wrth C——e eich bod ugain mlwydd yn hynach na hi, a bod yn rhaid i chwi, yn nghwrs natur, farw gymmaint a hyny o'i blaen. Os bydd iddi lefain am gael marw yr un dydd a'i mam, chwi ddywedwch wrthi fod ei Thad Nefol yn ei ddoethineb a'i ddaioni anfeidrol, wedi trefnu fod merch a mam a mamgu i gael eu geni yn rhyw bellder o 20 neu 30 mlwydd oddiwrth eu gilydd, a bod yn rhaid iddynt, gan hyny, farw yn yr unrhyw bellder oddiwrth eu gilydd cyn bydd pob un o honynt yn cael yr un amser a'r un cyfleusdra i wneuthur daioni yn ei chenedlaeth, a pharotoi ar gyfer byd arall. Os na fydd yn foddlawn ar hynyna, chwi ddywedwch, pe byddai i rieni a phlant farw i gyd gyda'u gilydd, y byddai hyny yn diweddu'r byd, ac yn troi'r ddaear yn anialwch wylofain, ac nas gallai fod ar y cyfryw gynllun ond un genedlaeth o ddynion o ddechreu'r greadigaeth; tra y mae doethineb Duw wedi trefnu i godi cannoedd o genedlaethau, trwy olyniaeth rheolaidd o blant yn goroesi eu rhieni ymadawedig, ac yn codi fyny hiliogaeth newydd i oroesi eu hunain. Mae dyfais ddynol yn codi dau grop olynol o blanigion mewn un flwyddyn ar yr un darn o dir; oni chaiff Doethineb Anfeidrol godi rhagor nag un crop o ddynion trwy yr holl oesau? Y mae gan ddaioni anfeidrol fwy o le i chwareu, i roddi

bodolaeth i rifedi mwy o greaduriaid rhesymol, ac i gymhwyso mwy o etifeddion ar gyfer nefoedd ac anfarwoldeb, trwy olyniaeth o drigolion; canys felly, pan y mae un genedlaeth yn pasio ymaith, y mae un arall yn d'od, ac y mae'r ddaear yn parhau yn wastad wedi ei phoblogi gan rai i wasanaethu a moli'r Creadwr. Dylem, felly, ymostwng i ymadawiad ein rhieni i etifeddiaeth gwlad well, i wneuthur lle i ni a'n plant i chwareu ein rhan, ac i redeg am yr un wobrwy ogoneddus, gan gofio y cawn ninau hefyd yn fuan ddylyn, a gadael ein trigfanau i gael eu preswylio gan lwyth arall o ddynion. Hyn oedd, hyn sydd etto, a hyn fydd byth y drefn sefydlog, cwrs annghyfnewidiol natur, Rhagluniaeth a gras.

"Er nas gallwn lai na theimlo pangfeydd ymadawiad ein rhieni tyner, dylem fod yn dawel-ymostyngol ar yr achlysur, gan ystyried fod poen ymadawiad yn gyfartal i'r pleser ddarfu i ni fwynhau yn nghymdeithas ein cyfeillion. Nid yw'r dyn sydd yn colli perthynas heb dristwch mawr wedi mwynhau ond ychydig ddedwyddwch oddiwrtho mewn bywyd. Os yw eich galar yn fawr, y mae arnoch ddyledswydd mawr i fod yn ddiolchgar am y cyssuron melus yr ydych wedi dderbyn yn hir. Pan welaf ddagrau angladdol, o'r braidd yr wyf yn gallu peidio llefain allan—mor ddedwydd y maent wedi bod! Gwyn eu byd y meirw ag y mae ganddynt y dystiolaeth hon o'u gwaith pan yn fyw; ond melldigedig yw efe sydd yn marw heb hiraeth ar ei ol, gan mai cyfran y diwerth a'r drwg yw.

"Yr wyf yn gobeithio y bydd rhai o'r meddyliau gwasgarog hyn yn foddion i'ch cymmodi i ewyllys Duw, a chymmedroli eich galar dan y brofedigaeth lem. Yr wyf wedi sylwi yn wastad, ac wedi profi yn fynych, fod y tristwch dyfnaf yn cael ei leddfu a'i leihau gan amser, fel y mae pob pwl olynol yn dyfod ychydig yn ysgafnach, ac yn cymmeryd lle yn llai aml na'r un blaenorol, ac ing y tristwch o'r diwedd yn peidio, trwy ddyfod yn adgof hyfryd a phleserus am ymadroddion, ymddygiad, ewyllys da, a charedigrwydd yr ymadawedig. Goddefwch yn amyneddgar dros ychydig wythnosau, a chewch deimlo y poen yn ymleddfu i fyfyrdodau tawel a phwyllog ar wagedd y byd, byrdra einioes, gwerth annhraethol rhinwedd, duwioldeb, a gwir grefydd, dyogelwch a gwobrwy yr uniawn, ymddangosiad gogoneddus yr Iachawdwr, adgyfodiad y cyflawn, a llawenydd anfarwoldeb. Nid wyf am attal na rhwystro dylifiad naturiol serch; ond ymdrechwch beidio rhoi ffordd yn ormodol, fel ag i niweidio eich iechyd, chwerwi y cyssuron sydd yn aros ar ol i chwi, rhwystro eich defnyddioldeb; yn hytrach, ceisiwch fwynhau bywyd, meithrin eich plant, a bod yn fendith yn eich dydd, i'ch teulu, a'ch cyfeillion. Maddeuwch y traethawd hir-wyntog hwn, yr hwn, er nad yw wedi ei dynu ar y cynllun goreu, sydd yn deilliaw oddiwrth yr amcan a'r ewyllys goreu. Mae eich mam-yn-nghyfraith yn uno yn y dymuniadau goreu a'r gweddiau mwyaf diffuant am eich dedwyddwch parhaus, â'ch serchog dad,

"D. D.

"O.Y.—Byddwch cystal a chyflwyno fy mharch mwyaf serchog a chydymdeimladol i Mrs. N. (os yn ein byd), yn nghyd â'r holl deulu."

"GADEWCH I BLANT BYCHAIN DDYFOD ATAF FI."

'Rwy'n meddwl wrth ddarllen yr hanes hen, hen,
Am Iesu pan oedd yn ein byd,
Modd galwai y plant ato gynt gyda gwên,
Yr hoffwn fod yno ar y pryd ;
A chael ganddo roi ar fy mhen ei hoff law,
A'i fraich o fy amgylch mor gu,
A gweled ei wên pan yn dweyd yn y taw,
" Gadewch iddynt dd'od ataf fi."

Pe byddai ond yma, fe roddai efe
Ei wên ar fy nghais i'w foddhau,
C'ai sain fy Hosana fry esgyn i'r ne',
Ac ato gwnawn fyth agoshau ;
A phe gwnaent geryddu neu 'ngyru i bant,
Mi lynwn gylch ogylch ei glin,—
Adroddwn ei eiriau ei hun am y plant,
" Gadewch iddynt dd'od ataf fi."

Ac etto, i'w gartre'n y nef wyf am fyn'd,
Gan geisio'n ei gariad gael rhan ;
Os bydd i mi ddylyn ei ol megys ffrynd,
Ca'i glywed a'i wel'd yn y man ;
Mae 'nawr yn ei Wynfa, wych le'n parotoi
I'r rhai ufuddhânt iddo ef,
A llawer o blant ydynt ato'n crynhoi,
" Can's eiddo y cyfryw yw'r nef."

Ond miloedd ar filoedd sy'n crwydro y byd
Na chlywsant am nefoedd erioed,
'Rwyf am iddynt wybod fod lle i'r holl fyd,
A'r Iesu'n gwahodd iddynt dd'od ;
Ac O, na chawn weled llon wawriad y dydd
Cynnullir plant bach o bob lle,
I lawn etifeddiaeth y mwyniant hoff sydd
I bawb yn nhrigfanau y Ne'.

JEMIMA LUKE.

ENWOGION ANNGHOFIEDIG.

YR wyf wedi meddwl lawer gwaith y fath drueni yw ein bod yn gadael i enwau cymwynaswyr ein gwlad i syrthio i ebargofiant. Paham yr ydym mor esgeulus ? Y mae bywgraffiaeth ein dynion mawrion yr hanes goreu a gwerthfawrocaf o bob hanes. Myn rhai mai dyna ydyw yr oll o bob gwir hanes. Yr wyf, yn y llinellau hyn, yn awyddus i osod gerbron y darllenydd yr oll wyf wedi ei gasglu am

Y PARCH. WILLIAM EVANS,

awdwr geiriadur gwerthfawr a gyhoeddwyd yn Nghaerfyrddin yn 1771. Yn *Llyfryddiaeth y Cymry*, tudalen 526, fe'i darlunir fel "Welsh and English Dictionary," gan "W. Evans, Carmarthen." Dywed Rowlands fod y Parch. Thomas Richards, Llangrallo, wedi gwneuthur "gwelliadau yn yr argraffiad hwn," ac yna, cawn y nodyn hwn gan y Golygydd, y Parch. D. Silvan Evans, B.D. :—"Pwy oedd y Parch. William Evans, awdwr y Geirlyfr hwn? Nid oes cymmaint a gair am dano yn neb o'r coffaon, ond etto, yr oedd yn awdwr Geiriadur Seisoneg a Chymraeg nid annghyfrifol. 'A Welsh and English Dictionary,' medd ein hawdwr; ond 'An English and Welsh Dictionary" a ddylasai fod, canys y Seisoneg sy flaenaf."

Nid wyf yn golygu i'r llinellau hyn fod yn ateb cyflawn i ofyniad y Parch. D. S. E.; ond yn hytrach yn awgrymiad ac yn help i symbylu rhywun i ymchwiliad pellach. Wele ddesgrifiad cyflawnach o'r Geiriadur :—"A new English and Welsh Dictionary, containing all words necessary for reading an English author, wherein not only the corresponding British word is given to the English, but also every English word is properly accented to prevent bad pronunciation, the part of speech added to which each word respectively belongs, and proper authorities subjoined where necessary. The whole carefully compiled from the most approved authors in both languages. By William Evans."

Mewn marwgof i'r Parch. Theophilus Edwards o Tavistock ac Exeter (*Christian Reformer*, 1833, *p.* 552), cawn fod Edwards ac Evans yn gydfyfyrwyr yn Ngholeg Caerfyrddin. Yr oedd Edwards hefyd yn gydfyfyriwr i Davis, Castell-Hywel. Yr oedd y Dr. Jenkins yn athraw y coleg ar yr amser hwn (1752—1779). Ordeiniwyd Edwards yn Ngorphenaf, 1772. Ymsefydlodd Evans yn weinidog rhyw eglwys Annghydffurfiol yn Sherborne, ond o herwydd afiechyd, gorfuwyd ef i roddi i fyny a symud i awyrgylch mwy mwyn Moreton Hampstead yn Devonshire, lle gweinidogaethai i gynnulleidfa luosog.

Yr wyf yn ddyledus i Mrs. Ruddle, gwraig y gweinidog, am y dyfyniadau canlynol o lyfr Eglwys Moreton Hamstead :—

"1776. March 29th. The Rev. Mr. Evans from Sherborne was chosen, but his ill state of health obliged him to leave it 12th May following.

"29th March, 1776. The Rev. Mr. Evans came from Sherborne, and went away the 12th of May following in an ill state of health. Paid him seven Sundays."

Yr oedd Theophilus Edwards yn arfer siarad gydag hyfrydwch mawr am alluoedd amrywiol a character swynol Mr. Evans; a dygai ar gof yn aml swynion ei athroniaeth a grasusau y grefydd yr ymddiriedai ynddi, gan y rhai yr esmwythid y daith iddo tua'r byd anweledig, canys yr oedd rhinweddau iachaol y cyffeiriau meddygol, yn nghyd â balm awyr mwy mwyn, ac ysprydoedd bywiog ieuenctid

wedi profi yn aneffeithiol i rwystro ymosodiadau dirgelaidd clefyd, ac i gadw i bant saeth marwolaeth.

Oddiwrth farwgof arall yn y *Christian Reformer*, 1847, yr wyf yn cael fod John ei frawd yn byw yn Cwmgwili; a desgrifir ei hynafiaid yn "fine race of Britons which is rapidly disappearing from the earth." Yn y cyffredin, cyflwynent eu bywydau i amaethyddiaeth, er fod rhai wedi gadael cartref er sicrhau y wybodaeth angenrheidiol i'w haddasu i fod yn athrawon y bobl. Enwogodd llawer o honynt eu hunain yn neuaddau dysg. Dywedir fod Evans yn cael ei ystyried yn ddyn dysgedig gan fawrion, a bod ei Eiriadur yn cael ei ystyried y goreu'n bod. Cynnorthwyodd yn y cyfansoddiad o lyfrau ereill. Yr oedd ei lyfrgell yn fawr, a daeth i feddiant ei nai o'r un enw, sef Evans, Tavistock.

Yn y *Record of Unitarian Worthies*, gan y Parch. Robert Spears, tud. 82, ac mewn cyssylltiad ag enw y nai, mae yn cael ei ddesgrifio fel Dr. William Evans; ond nis gwn ar ba sail.

Dywedir fod y Theophilus Edwards rhag-grybwylledig wedi ei gymmeradwyo i gynnulleidfa Tavistock gan ei "quondam fellow student," William Evans. Olynydd Edwards oedd W. Evans, y nai.

Ymddengys fod Edwards ac Evans wedi teimlo dylanwad ysgrifeniadau Lardner a Priestley yn fawr, ac wedi coleddu athrawiaeth Efengylaidd yr Undod mewn gwrthgyferbyniad i'r "verbal fiction of plurality in the Divine nature."

Bernir i W. E. gyfansoddi ei Eiriadur pan oedd yn fyfyriwr yn Ngholeg Caerfyrddin. Cyhoeddwyd ail-argraffiad yn 1832, gan John Evans, o'r *Journal* Office, Caerfyrddin, yr hwn a dybir ei fod yn perthyn i'r un teulu. Yr wyf yn tueddu i gredu fod W. E. yn berthynas hefyd i'r William Evans a ordeiniwyd yn 1688, ac a fu'n weinidog 15eg mlynedd yn Mhencader, yr hwn, wedi hyny, a symmudodd i Gaerfyrddin i gymmeryd gofal eglwys yno, ac a fu yn offerynol i gychwyn y Coleg yn Nghaerfyrddin. Bu'r olaf farw yn 1720.

S.N.S.

POSTCARD SYMPOSIUM.

PWNC:—I BWY MAE DUW YN DAD? NEU PWY YDYW PLANT DUW?

SUBJECT:— TO WHOM IS GOD A FATHER? OR WHO ARE GOD'S CHILDREN?

ONE answers God is Father of His elect, and his elect are we, our people, our sect; but surely God's love and fatherhood will transcend all sects and people—will embrace Jew and Gentile, bond and free, in its all inclusive ever-glowing grace and love. He is not the Father of the good alone, but of the bad and the indifferent also; and our Larger Hope looks forward to a time—yet far off—when the warmth and strength of his love will melt the hardest heart and bend the stubbornest will to a humble and loving submission.—F. R.

God's children are those who obey him; those who obey him not are not called his children. It depends upon man alone whether he becomes God's child or not. If a tree has a thousand blossoms, a fraction only becomes fruit; but blossoms have no volition. A man may not become a child of God against his own will—may not be saved against his own will—that he wills it is the essence of his salvation. God wills his salvation; but man's will must co-operate to attain success. The prodigal did not enter into the joy of his father's mansions till he willed it. The material out of which God may raise children unto himself may not be the church for which we have a partiality. Do we love peace? We are the sons of God. The children of purity, of love, of goodness, of holiness, are the children of God.—SEBASTIAN CABOT.

'Rwyn dal fod y cynneddfau moesol, gan ba rai yr ydym wedi cael ein donio, yn belydrau bychain oddiwrth y Creawdwr Dwyfol, yr hwn sydd berffeithder neu gyflawnder anfeidrol o honynt; ac mae trwy y priodoleddau *congenial* yma yr ydym yn gallu teimlo ac adnabod y Duw Byw; trwy y reddf o gariad o'n mewn, gallwn ddeall ystyr y geiriau: "Cariad yw Duw." Fel y mae y reddf fewnol o serch a chariad ynom yn cryfhau a bywiocau, yn yr un mesur mae presenoldeb ein Tad nefol yn dyfod yn fwy *real*, yn agosach. Nid all yr hwn ni deimlodd y cariad hwn, gredu mewn Duw cariadus. Ni ymofyn y plentyn un resymiad i'w foddloni o serch ei fam; ac fe deimla pob gwir blentyn, y cariad Dwyfol yn ei enaid ei hun. Ymdrechwn i deimlo cariad Duw, meddiant o'r hwn ydyw'r hyfrydwch, cynnorthwy a'r fendith oreu allwn gael.—TYSSUL (*Presb. Coll.*) *Tachwedd 7fed*, 1887.

Yr wyf yn credu fod Duw yn Dad i bawb, ac y bydd iddo Ef gyflawnu ei ran er iechydwriaeth pob dyn. Nid yw Efe yn ewyllysio marwolaeth neb, nid yw hyny feallai yn awgrymu na fydd farw. Rhaid i ddyn er mwyn byw benderfynu byw; a rhodio'r llwybr sydd yn sicrhau bywyd. Ni ddichon Duw roddi bywyd i ddyn ar lwybr marwolaeth. Fe ddichon iddo dueddu dyn i adael llwybr pechod a dylyn llwybr rhinwedd. Mae holl ddysgyblaeth a holl weinyddiadau Rhagluniaeth yn tueddu yn y cyfeiriad hyny. Rhaid i ddyn ei hunan gyflawnu ei ran hefyd.—S. S.

Mae Duw yn Dad i bawb, a'i drugaredd dirion dros ei holl waith. Mae Duw yn gariad ac yn ewyllysio ein lles. Mae Duw yn hollddoeth, ac fe wyr y ffordd i ddwyn yr hyn y mae yn amcanu i ben. Mae yn hollalluog, fel na ddichon dim ei rwystro i ddwyn y daioni mae yn ei ewyllysio i ben. Mae dyn yn ynfyd ac yn ffol ac yn gadael y cariad sydd yn ewyllysio ei les. Er mwyn ei iechydwriaeth ei hunan, doeth-

ineb y dyn yw gosod ei hun yn llaw y gallu sydd yn cydweithio á'r doethineb, a'r cariad sydd am ei wneuthur yn blentyn da.—R. JOHNSON.

I bwy mae Duw yn Dad? I bawb o'i blant. Ond pwy ydyw ei blant? Pawb ydynt wedi eu geni i'r bywyd ysprydol, y bywyd ysprydol yr hwn sydd yn parhau. Ar y llinell ysprydol yn unig y mae y bywyd a bery byth. Plant Duw ydyw plant y mabwysiad. Crist yw ein bywyd. Yr hwn y mae Crist ganddo, y mae bywyd ganddo. Byw yn Nghrist felly yw byw yn Nuw. Heb Grist, heb Dduw; heb Dduw, heb ddim. Cael Crist, cael Duw; cael Duw, cael pob peth. Crist yw bara y bywyd. Crist yw y bywyd tragwyddol. Cael Crist yw cael egwyddorion Crist, cael doethineb, cael deall, cael cariad, cariad at Dduw a dyn. Ac i hyn, rhaid cael yr *ewyllys* i hyn, a allwn ni fod yn blant y mabwysiad, yn blant i Dduw, heb ewyllysio hyny? Ewyllysiwn a gweithredwn yn ol deddf yspryd y bywyd yn Nghrist Iesu, ac yna, deuwn yn blant i Dduw, fel y dylem oll fod.—APJOHN.

Rhagorfraint creadigaeth dyn oedd ei fod yn blentyn ar lun Duw; ei golled anadferadwy personol oedd, fod ei ben cynnrychiolydd wedi fforffedu y fraint hon iddo, a'i adael mewn perygl tragwyddol. Ei obaith yw, fod yr Iesu yn ei gorff ei hun ar y pren wedi cymmeryd trugaredd arno, gan wneuthur y cariad diweddaf hwn i erfantoli y pechod cyntaf. Bellach, y mae bywyd dyn, os ewyllysia, yn adferadwy yn Nghrist. Creded yn Nghrist, gwrandawed arno, gweitbreded gydag ef. Mae y ffordd wedi ei phalmantu o'i flaen, rhodied ynddi. Cadwed ei lygad ar Grist croesboeliedig, a chaffed heddwch.—W——Y.

The common doctrine of life in Christ seems to be one intended for the comfort of those who may think themselves of the number of the elect; but a sorry doctrine for those who have never heard of Christ's name. Surely, we are all God's children, since he made us all, both good and bad. The father in the parable was father of the prodigal, just as much as he was of the elder son. Nothing that we can do can deprive us of his fatherhood; and his father's love will finally save us all; and may his love therefore constrain us to that love and obedience that will bring unto us life and salvation.—R.

O'ch tad diafol yr ydych chwi, ebe'r Iesu, am rai ag oeddynt yn cyflawnu gweithredoedd eu tad. Plant Duw yw y cyfryw a geisiant gyflawnu gweithredoedd Duw; pagan yr India neu Gristion Prydain

Fawr, plentyn i Dduw ydyw os yn ceisio cyflawnu ewyllys Duw; os yn ufuddhau i'r ddeddf dragwyddol, ysgrifenedig ar lechau'r galon. Os ydym yn byw ac yn gweithredu y goreu a wyddom, ni fyddwn ni ddim yn mhell oddiwrth deyrnas Dduw; ond pagan neu Gristion fyddo yn wirfoddol yn syrthio'n fyr o'r goreu a all, nid yw ond gwas anfuddiol, a'r lle y gall ofni yw y tywyllwch eithaf.—Q

Mae Duw yn peru i'w haul godi ar ddrwg a da ac yn gwlawio ar gyfiawn ac anghyfiawn; ac yn gymmaint a'i fod wedi ein creu i gyd, y mae yn Dad i ni gyd, a ninau i gyd yn blant iddo yntau. Nid yw plentyn yn llai yn blentyn i'w dad o herwydd anufudd-dod a drygioni; y mae tad a mam yn fwy eu gofal am ei plentyn afradlawn nag am yr un o'r plant ereill. Yn ddiau fod y Tad goreu yn ewyllysio dychweliad a dyogelwch ei holl blant. Ein pwnc ni a'n busnes ni, y plant, yw, pa un a fyddwn ni yn dychwelyd o gyfeiliorni ein ffyrdd ai peidio. Mae ty y Tad yn barod, y drws yn gil-agored, y *knocker* arno—pob croesaw yn aros dychweliad yr edifeiriol. Gwaith yr afradlawn yw y dychwelyd, megys ag mae ei waith ef oedd y cefnu ar y cyntaf.—Nimrod.

Nid ffordd Duw ydyw ffordd dyn, ond fe geir allan yn y diwedd nad yw ffordd Duw ddim yn llai doeth na ffordd dyn. Mater o esponiad feallai yw llawer o enwau a ddefnyddir genym ni; ond credaf fod ystyr yn yr hwn y mae Duw yn Dad i bawb. Efe a'n creodd ni, ac nid wyf yn credu fod ei gariad tuag atom yn llai na chariad tad daearol at ei blant; ac nid wyf yn credu y gedy Efe un dyn yn dragwyddol ar goll. Dyn yw creadur perffeithiaf y cread, ac nid wyf yn credu y dichon y Duw doeth a da adael i hwn fyned i golli yn dragwyddol. Pan losgir canwyll, ni ddinystrir yr un elfen ynddi. Nid yw yr holl elfenau ond wedi cyfnewid ffurf a pherthynas. Pan basiwn ninau hwnt i'r llen byddwn yn parhau yn ei ofal ac yn ngafael ei gariad Ef yr hwn yw Tad pob un o honom.—I. P. P.

Mae Duw yn dad i bawb, a thad anghyfnewidiol. Peidia fod yn Dduw cyn y peidia fod yn dad. Mae yn agosach tad i'r rhai sydd o'r galon yn dymuno bod yn debyg iddo, trwy geisio ei ddedwyddwch yn y man mae Duw wedi ei ddodi ef, ac yn y man y mae Duw ei Hunan yn ei gael ef, sef mewn bod yn dda ac mewn gwneyd daioni. Mae y cyfryw rai yn mhob cenedl a phob sect dan y nef, yn swppera gyda Christ a'r Tad. Pwy bynag sydd yn teimlo Duw yn dad mewn gwirionedd, mae y cyfryw yn y nef yn barod.—J. Williams, *Pantteg*.

Yn fy marn I, y mae Duw yn dad holl bobl y byd, ac y mae yn tywallt ei fendithion arnynt oll yn ddiwahaniaeth,—yn peru i'w haul godi ar y drwg a'r da, yn gwlawio ar y cyfiawn a'r annghyfiawn, ac yn cadw anadl einioes yn eu ffroenau a bywyd yn eu gwaed, fel ag y mae yn briodol i ni oll ddweyd mai yuddo ef yr ydym yn byw, yn ymsymmud, ac yn bod.—D. Phillips, *St. Clears*, *Hydref* 31, 1887.

Mae Duw yn dad cyffredinol i'r holl fyd—i'r dyn anwar fel y gwâr, i'r dyn drwg fel y da. Mae Duw yn parhau yr un tuag at ei blant yn mha gyflwr bynag y byddont, ac y mae yn anmhossibl i'r cymmeriad gwaelaf mewn bodolaeth fod y tu allan i dosturi tadol gariad yr Anfeidrol; ond y mae y plentyn, fel y mae yn troseddu deddfau ei Dad, yn raddol, trwy hyny, yn dibrisio y berthynas fendigedig hon, ac o dipyn i beth, fel yr ä yn mlaen ar y llwybr hwn, braidd na ellir dweyd ei fod yn annghofio ei Dad yn hollol, ac yna, y mae fel yn gadael yr hen berthynas, ac yn ffurfio perthynas newydd—"Canys lle mae eich trysor, yno y bydd eich calon hefyd." O'r ochr arall, mae y plentyn sydd yn edrych ar ewyllys ei Dad fel ei fwyd a'i ddiod, ac yn credu mai cadw ei orchymynion yw y ffordd i sicrhau cyssur a dedwyddwch —mae hwn, fel y mae yn myned yn mlaen ar hyd llwybr rhinwedd a daioni, yn teimlo y Cariad Tadol yn cylymu yn dynach am dano yn barhaus. Am hyny,

O du Duw mae'n Dad i bawb,
O du dyn ei dad yw ei cilun.

—L. D. J., *Llanbedr.*

"BYDD HYNAWS."

(Cyfieithad.)

Bydd hynaws i'r henwr, yn mlodau dy ddyddiau,
Bydd hynaws o'th galon, nid mewn ryw wag ffurfiau,
Bu gynt yn ddyn ieuanc, gobeithiol, fel tithau,
Mor llawen ei galon, mor llyfn ei aeliau!

Bydd hynaws i'r gwanwr, rho fwyd i'w ddiwallu,
A nawdd a gorphwysfa i'w siriol ddyddanu,
Fe ddichon cyn marw eich tynghed fydd unwedd,
Neu fedd yn gydochr i'r un b'ot ti'n gorwedd!

I'r cloff, ac i'r gwargam, a'r dall, bydd dosturiol,
Eu meddwl a glwyfir trwy'u diffyg corfforol;
A thra y tardd rhinwedd trwy brofiad ac adfyd,
Yn meddwl, nid glendid y dyn, mae'i wir olud!

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD—CYFROL XII.

1887.

ABERDAR:
JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, COMMERCIAL PLACE.
—
1887.

AT BOB DARLLENYDD.

Anwyl Gyfeillion,—

Mae y rhifyn hwn yn gwneuthur y 248ed o'r Ymofynydd sydd wedi ei anfon allan o dan yr olygiaeth bresenol, ac wrth anfon hwn allan nis gallaf lai nâ theimlo yn ddiolchgar am gael y cyfleusdra i fod o wasanaeth bychan fel hyn cyhyd o amser. Mi garaswn i'r gwasanaeth fod yn well, ond yr wyf yn credu iddo fod bob amser y goreu dan yr amgylchiadau. Yr wyf yn ddiolchgar i chwi gyd,—yn ohebwyr, dosparthwyr, a darllenwyr—am ba ffyddlondeb bynag yr ydych wedi ei ddangos yn ystod y blynyddoedd y mae Yr Ymofynydd wedi bod dan ngofal I. Heb eich gwasanaeth chwi ni fuaswn wedi gallu dwyn un rhifyn allan. Yr wyf yn taer obeithio y bydd i chwi barhau'r ffyddlondeb ac ychwanegu ato, i'r golygydd newydd: fel y byddo i faes gwasanaeth a defnyddioldeb Yr Ymofynydd gynnyddu yn hytrach na lleihau. Bydd felly, yn hyfrydwch gan y Golygydd newydd eich gwasanaethu, ac yr wyf yn dymuno iddo lwyddiant mawr, a phleser mawr gyda'i anturiaeth newydd, yn nghyd ag oes hir i ddwyn allan fwy a gwell rhifynau nag a wnaeth ei ragflaenydd. O leiaf hyn, ceisied wneuthur Yr Ymofynydd y goreu y gallo, ac er iddo fethu boddio pawb, ni fydd achos iddo wan galoni, ni fydd hyny ond tynghed golygwyr ereill o'i flaen. Darllened Anerchiad Mr. W. Thomas, i ddarllenwyr Yr Athraw yn 1866, a chaiff deimlo yr hyn a fydd yn galondid iddo. Tra yn gwrando yn barhaus ar bob opiniwn, peidiwch annghofio chwedl yr hen wr a'r asyn, Mr. Davies.

Ac yn awr, gyfeillion, ffarwel oll. Yr wyf yn teimlo yn anhawdd tori'r cyssylltiad—sydd wedi bod yn anwyl ac yn blesserus, os ambell bryd yn gymmysg a gofal a phryder, ond ffarwel bellach, a phan y delo—Blwyddyn newydd dda i bob un o honoch!

CYNNWYSIAD.

Amddifad, Yr 5
Addysg fydol..... 76
Adolygiadau.....115, 135, 164

Bacon, Eilunod..... 62
Bedydd yr Iesu 17
Beecher, Gemau..... 133
Beibl a Chrefydd 34
Blwyddyn arall 3
Brooke Y Parch. S. A..... 140
Bwda, Gautama 3, 91
Bywyd Duw yn Enaid Dyn..... 187

Calfiniaeth, gan Channing 165
Celt a'r Undodiaid..... 127, 246
Clefyd y Sabbath 149
Cristion 84, 150
Cwrtaith Foesol 73
Cyrddau Chwarterol .. 33, 103, 174, 251
Cynauaf (Pregeth W. T.)..... 241
Cynnildeb 101
Cyndadau, Ein 121

Daioni, Gwneuthur 157
Darllenwch y Ddwy Ochr 113
Davis, Castell Hywel..... 135, 186, 265
Duw yn Dad—i bwy? 270

Emynau.....9, 16, 113, 115, 134, 211
,, Cystadleuaeth yr, 163, 188, 206, 209.
Engyl, Troediad 32
Enlli, Ynys 255
Enwogion Annghofiedig 268
Eurgrawn Cymraeg (1770) 86, 278
Evans, Y Parch. J. G. 163
Evans, Y Parch. W. 269, 275, 277

Fodrwy, Y 103

Gauaf 7
Genesis.....68, 277
Gladstone 206 (1866)
Gwrandawyr 255
Gwyliau.....185, 211, 235
"Gadewch i blant bychain ddyfod ataf fi" 268

Hindwaidd, Emynau 69
Home Rule (gan Hopps)..... 25
Hunanymchwiliad..... 227

Iwbil, Yr,..... 137, 145, 208
Iwerddon. Yr,.....25, 228

Jonah, Llyfr 12
Jones, Y Parch. J. Lloyd 210

Luther ac Erasmus 115
Llangynwyd, Plwyf 163
Llwyd, Y Parch. D., ... 89, 176, 198
Llwynrhydowen 54
Llyfr Coch o Hergest..... 117
Llythyren a'r Yspryd 51

Mai 100
Mehefin 127

Newton a'i Ragredegwyr 10, 49

Oliver, Y Parch. D. 3

Plater, Y Parch. D. J. 236
Postcard Symposium..108, 160, 191, 228, 270.
Plant, Hyfforddi 59
Priodi 88
Pythagoras (Hunan-fyfyrdod) 69

Sylfaenau..... 8
Swedenborg 67
Seiliau'r Ffydd..... 86
Spurgeon 207, 260

Tagnefedd ar y Ddaear 136
Trindod ac Undod..... 209

Undeb Gweinidogion 133
Undodiaid, eu Cred..... 19
Undodiaeth (Papur Mr. Lloyd) ....181, 193, 202, 221.

Ymddyddan 12, 34
Yr Ymofynydd 19, 190
Ympryd 97
Yspryd Glân 85

YSTORIAU.

Yr Amddifad 5
Cymmeriad Od..... 56
Cwch, Y 153
Dylanwad Mam 139
Y Fodrwy 103
Gwir Gariad 66
Mari Fach..... 38
Myned ar i Waered..... 80

Bydd fwyn i'r syrthiedig, sy'n byw ond i flinfyd,
Bydd fwyn i yr alltud, sy'n chwennych dychwelyd,
Bydd fwyn i'r gwargaled, na phlygodd mewn gweddi,
Ac hefyd i'r ofnog, sydd yn digaloni!

I'r gwan a ormesir, i'r camgyhuddedig,
I'r hwn a watwarir, i'r dyn gwenieithiedig,
I'r sawl wnelo gam, a'r sawl gaffo gamwedd,
I bob un o honynt, O! dangos hynawsedd.

Canys eang yw maes y meddwl caredig,
Ond eiddo'r hunanol sy'n gylch cyfyngedig;
A disglaer yw rolfa'r dyn mwyn ac unionfryd,
Ond O! mor dwyllodrus yw ffordd y balch ynfyd!

Gan hyny i henaint, rho barch tra y gallot,
I'r tlawd, tra ar roddwr pawb rhadau gweddiot,
I'r eiddil neu'r crwydriad, dan bwys ei galedi,
A'th gwpan gorfoledd orlenwir cyn 'fory.

CYNONWYSON.

NODYNAU GWASGAROG.

Mae y Parch. J. R. Kilsby Jones, yn ei erthygl ar Griffith Jones, Llanddowror, yn y *South Wales Daily News*, yn rhoi gwers y dylai Eglwyswyr ddysgu a bod yn ddiolchgar am y wers—"Fod gweinidogion crefydd yn bodoli er mwyn y bobl, ac nid y bobl er mwyn yr offeiriadaeth, ac fod Cristionogaeth yn bodoli er mwyn dyrchafiad yr holl deulu dynol, ac nid er mwyn yr amcan begeraidd a dirmygus o ddyrchafu rhyw nifer o ddynion cyffredin iawn *(very common-place)* i uchafiaeth gymdeithasol *artificial*—uchafiaeth sydd wedi ei defnyddio yn rhy fynych at amcanion annheilwng a gwarthus."

Y PARCH. WM. EVANS.

Mab ydoedd hwn i John a Sarah Evans, Cefngwili, ger Caerfyrddin. Ganwyd ef Medi, 1769, a bu farw Mai 3, 1847, wedi bod yn agos 50 mlynedd yn weinidog Tavistock, ac yn athraw ysgol yn y gymmydogaeth. Yr oedd yn nai fab brawd i'r Parch. W. Evans, Sherbourne (tud. 269). Cafodd y fraint o addysgu rhai a gyrhaeddasant enwogrwydd wedi hyny, megys Syr Michael Seymour, Syr Edward Codrington, Syr Richard King, ac Admiral Tollemache, &c. Pan briododd yn Taunton yn 1806, aeth i fyw i'r ty lle y cafodd Syr Francis Drake ei eni. Yn amser Mr. Evans, yr oedd y coleg yn Abertawe, a'r athrawon ar y pryd oeddynt y Parchn. Thomas Lloyd, mab John Lloyd, Brynllefrith, a W. Howell. Yr oedd Lewis Loyd (y bancer enwog

wedi hyny) yn gydfyfyriwr, ac yr oeddynt yn gyweliaid. Ni fu T. Lloyd yn athraw ond o 1785 hyd 1782, pan y bu farw yn 25 oed.

Dywed y Parch. J. Gwynoro Davies, yn ei fywgraffiad o'r Parch. Ddr. Lewis Edwards, o'r Bala—yn ei farn ef y Cymro mwyaf yn ei ocs—fel hyn :—"Feallai mai ei orchestwaith ar faes llenyddiaeth ydyw ei lyfr ar "Athrawiaeth yr Iawn," ymddangosiad pa un a greodd gyfnod newydd yn ffurf y ddiwinyddiaeth a bregethid yn mysg y Methodistiaid Calfinaidd yn Nghymru. Symmudwyd hunllef ofnadwy Uchel Galfiniaeth ; daeth y pregethwyr i anadlu yn fwy rhydd, a dechreuodd yspryd iachus, mwy gwirioneddol a goruchel, lefeinio eu gweinidogaeth. Ysgubwyd ymaith yr hen Athrawiaeth o Iawn Masnachol yr hwn mewn effaith oedd yn dystrywio ffydd, ac yn gwneyd sancteiddrwydd yn adeilad yn yr awyr heb sylfaen."

EIN HYSGOLION SUL.

Addefir yn y cyffredin mai anhawdd ydyw dyogelu cin hieuenctyd gyda'r Ysgol Sul, pan ddelont i fyny i 16 oed, ac a mae'n fater sydd yn teilyngu sylw arbenig cin heglwysi. Deallaf fod peth gwelliant yn ddiweddar. Mae pwysigrwydd a gwerth yr Ysgol Sul yn cael eu cydnabod bron gan bawb—lle mae cin pobl ieuainc yn cael eu haddysgu a'u trainio, ac wedi cyrhaedd yr oedran i deimlo yr atebolrwydd sydd yn ymorphwys arnynt i fyw bywydau moesol a defnyddiol, yr ydym yn awyddus i'w gweled yn cael eu trawsblanu mewn ystyr i'r eglwys fel o dan ddylanwad priodol y byddo iddynt barhau eu tyfiant ar ddelw yr athraw o'u mewn. Yr wyf am awgrymu cynllun i sylw cin Hysgolion Sul—cynllun sydd wedi profi yn effeithiol iawn yn rhai manau yn Lloegr, sef cynllun y

GUILDS.

Gall y *Guild* gynmeryd gwahanol ffurfiau—gydag un amcan mawr —gogoniant Duw a lles dyn. Arwyddair un *Guild* yw "glynu yn yr hyn sydd dda," a dyma y rheolau :—

1. Ceisio bod yn bur o feddwl, yn eirwir mewn gair, yn addfwyn mewn ymddygiad.
2. Gochelyd cwmni drwg, a gweithredoedd annheilwng a niweidiol.
3. Bod yn foddlon ymgynmeryd ag unrhyw wasanaeth o ddefnyddioldeb a help.
4. Dangos cariad brawdol at bob aelod o'r frawdoliaeth.
5. Peidio gwneuthur dim fyddo yn rhwystrol i gynnydd a lledaeniad crefydd cariad at Dduw a chariad at ddyn, fel y mae'r Iesu'n dysgu.
6. Mynychu cyfarfodydd y *Guild* yn rheolaidd ac yn brydlawn ; bod yn wresog yn ei waith, ac yn ddefosiynol yn ei wasanaeth.

Carwn ymhelaethu ond yn bresenol cyflwynaf gymmaint a hyna i sylw'r darllenwyr gydag awgrymiad iddynt ymholiebu a Mr. George Eyre Evans, 100, Camden St., Birkenhead, am hyspysrwydd pellach am natur y *Guilds*.—W. P.

Llyma gynghorion a roddes Cattwg Ddoeth i Daliesin Ben Beirdd pan oedd yn ysgolhaig iddo:—Meddylia cyn gwetych—

1. Yn gyntaf, beth y gwetych.
2. Yn ail, paham y gwetych.
3. Yn drydy', wrth bwy y gwetych.
4. Yn bedwerydd, am bwy y gwetych.
5. Yn bummed, beth a ddaw o'r peth a wetych.
6. Yn chwechfed, pa les o'r peth a wetych.
7. Yn seithfed, pwy a fo'n gwrandaw a wetych.

Dod dy air ar ben dy fys cyn ei gwetych,
A threigla ef y saith ffordd hyn cyn ei gwetych,
Ac ni ddaw drwg fyth o'r hyn a wetych.

TEYRNAS NEF.

(Cyfieithad o "Salmau Iolo," Cyf. I., Salm 117. *O'r "Monthly Repository," p.* 333.

Thy sole dominion, heavenly King!
Enjoys immortal peace,
And, founded on a rock, endures
No shadow of decrease;
The Rock of Ages is the base
On which its towers recline;
Whose walls of adamant are crowned
With beams of joy divine.

Beneath thy reign of bliss supreme
Be mine the glorious part
To share the bounties of thy love
With ecstacy of heart;
Where wisdom thy designs unfolds
In truth's eternal light,
And goodness breathes her native air
In realms of pure delight.

Kilworthy, near Tavistock, Feb. 11, 1818. WILLIAM EVANS.

GENESIS ETTO.

Ebe Dean Burzon, "Without the three first chapters of Genesis, the whole fabric of the New Testament record would lapse into shapeless ruin." Y mae Dr. Gladstone yn annghymmeradwyo yr ymosodiadau a wneir o'r pwlpud ar ddynion gwyddonol. Byddai yn well ganddo ef fod unrhyw un anwyl iddo ef yn cael clywed Bradlaugh yn pregethu na'i fod yn cael gwrando y fath bregethu. Meddylier am foment am ddynion o ddysg yn ceisio genym gredu fod crefydd yn dybynu ar ddilysrwydd pennodau cyntaf Genesis. Wrth gwrs, dyma'r ymresymiad: Mae y codi yn Nghrist yn gorphwys ar, ac yn ei wneuthur yn angenrheidiol gan, y codwm yn Adda; ac os na fu codwm yn Adda, y mae holl adeiladwaith y dduwinyddiaeth boblogaidd mewn perygl.

ALL SAINTS CHURCH, CHICAGO.

Yr ydym yn caru'r cynllun o gyhoeddi adroddiadau eglwysig, ac y mae yn hyfrydwch genym gael cyfleusdra i ddarllen adroddiad 1887 o'r eglwys uchod, lle mae y Parch. J. Lloyd Jones yn weinidog llafurus. Gosodir yr egwyddorion allan fel hyn :—

1. Uchafiaeth caracter uwchlaw cred, mewn crefydd.
2. Hawliau Rheswm yn y defnydd o Ddadguddiad y Beibl.
3. Urddas mewn gwrthgyferbyniad i lygredd y Natur Ddynol.
4. Undod, nid Trindod Duw; Dwyfoldeb, nid Duwdod Crist; a bod Crist wedi ei anfon i'n hachub oddiwrth ein pechodau, ac nid i fod yn un yn ein lle i ddyoddef cosp pechod.

Carem roddi'r gweddill o'r hyn sydd dan y pennawd, "Our Doctrines," ond nid yw gofod yn awr yn caniatau.

Mae yn amlwg fod gan yr eglwys olwg eang ar y gwaith sydd ganddi i'w gyflawnu, ac yn ddoeth yn ei dosparthiad o waith i aelodau y cyfundeb. Mawr lwyddiant a'u canlyno.

——

YN NGHYLCH RHYDDID.

(Cyfieithad o'r Seisnig ar Ddeisyfiad.)

Hyfryd yw blodau per-lysiau yn wir,
Hyfryd yw iraidd gawodydd yn ddir * ('n ddiau *)
Hyfryd yw'r cysgod ry'r gelltydd ar bryd,
A hyfryd yw caniad yr adar yn nghyd:
Ond nid yw yn hyfryd na'r gelltydd na'r gwlaw,
Na'r plyfog gantorion, na'r blodau mewn llaw!
Nac un peth yn hyfryd neu felus i mi,
O, Ryddid anwylaf, os collaf dydi.

* Sef o bethau daearol.

(O'r *Eurgrawn Cymraeg*, 1770.) IEUAN FARDD DU.

——

DUW YN CAEL EI DDATGUDDIO YN NATUR A DYNOLIAETH.

Nid yn unig yn Ngair ysgrifenedig yr Ysgrythyr Sanctaidd y mae Undodiaid yn cael datguddiad o Dduw: y maent hefyd yn darllen ei enw ac yn astudio ei ewyllys yn mhob peth y mae wedi ei wneyd. Efe yw Alpha ac Omega natur. Y greadigaeth weledig ydyw y corff i'r hwn mae y Duw Anweledig yw yn enaid. Yn nyfnderoedd anfeidrol y nefoedd serenog canfyddwn ei ogoniant. Yn y cymmylau symmudol gwelwn ei brydferthwch. Yn rhol alluog tón yr eigion y darllenwn ei allu; ac y mae ei radlonedd a'i haelioni wedi ei ysgrifenu ar y mynydd a'r cwm, y tir coediog a'r ddol. Mae natur yn dyfod yn Ddwyfol —wedi ei llanw gan Dduw; felly, pan yn edrych ar ei gwyneb, gwelwn nid yn unig gyfraith a nerth, ond prydferthwch Cyfaill ysprydol a

chariadlawn. Ni allai dyn, pa fodd bynag, adwaen a chydnabod yr Yspryd Dwyfol hwn pe na fuasai ei enaid ei hun yn deml y Duw byw. Ein meddylddrychau ni o'r anfeidrol a'r perffaith, o gariad a gwirionedd, o drugaredd a daioni, ydynt oll ddarluniau o Dduw, y rhai y mae wedi eu paentio ar lechau ein meddwl a'n calon. Y mae rhai yn dyfod yn bylog, a'r goleuni Dwyfol yn cael eu tywyllu yn yr enaid gan ofalon bydol, awyddau hunanol, nwydau isel, ac amcanion gwael; ond y mae Duw yna o hyd, ac ni rydd i ni ddim gorphwys hyd oni ddelom yn ymwybodol o'i bresenoldeb, ac y cydnabyddom ei ofal tadol a'i gariad. Y mae Duw yn amlygu ei Hun yn y byd yn mywyd pawb dynion a menywod da. Y maent hwy yn dyfod á'i Air Ef, yn cael ei adwaen a'i ddarllen gan bawb dynion. Mae eu hamynedd a'u cydymdeimlad, eu cariad a'u maddeuant, yn danges i'r byd gariad maddeuol a thyner eu Tad yn y nefoedd. Felly y mae yr Undodiaid yn credu fod Duw yn datguddio ei Hunan bob amser yn natur ac mewn dynoliaeth, yn gystal ag yn y Beibl.—A. B. C.

I BA BETH YR YDYM YN MYNED I'R CWRDD?

Yr ydym yn myned i'r cwrdd nid am dduwinyddiaeth, ond am grefydd; nid am ddamcaniaethau newyddion yn nghylch gwirionedd neu onestrwydd, ond am nerth newydd a ddichon ein helpio i fod yn gywir ac yn onest mewn awyrgylch gymdeithasol a masnachol lygredig; nid am ddamcaniaethau cymdeithasol newyddion, ond am gymhellyddion newyddion at wroldeb ac ewyllys da tuag at ein cyd-ddynion; nid am ryw athroniaeth newydd yn nghylch Duw, ond am nerth newydd i'n dwyn i gymdeithas agosach á Duw. Os, oddiwrth ei fyfyrdod pwyllog a defosiynol, ac oddiwrth ei efrydiaeth ryddymofyniadol o'r Beibl a ysgrifenwyd gan Dduw flynyddoedd yn ol, a'r Beibl y mae yn parhau i'w ysgrifenu yn y profiad dynol, y gall y pregethwr ddwyn i'w bobl fywyd newydd a Dwyfol, efe a rydd iddynt yr hyn y maent wedi dyfod i'r cwrdd am dano, ac ni fydd byth mewn angen am gynnulleidfa. Mae commissiwn Crist i'w ddeuddeg yn gommissiwn parhaus i'w weinidogaeth—"Iachewch y cleifion, glanhewch y gwahanglwyfus, cyfodwch y meirw, bwriwch allan gythreuliaid; derbyniasoch yn rhad, rhoddwch yn rhad." Mae y sawl a all wneuthur hyn yn bregethwr, a'r hwn ni all wneuthur hyn nid yw yn bregethwr; ac efe yn unig a ddichon wneuthur hyn, yr hwn sydd, trwy fywyd dyddiol gyda Duw, wedi derbyn yn rhad yr hyn y mae yn ei roddi yn rhad i ereill.

Pa un a fyddo'r gweinidog yn pregethu yn ymarferol neu athrawiaethol, pa un a fyddo yn darllen neu yn traddodi o'i gof, pa un a fyddo ei dduwinyddiaeth yn Arminaidd neu Galfinaidd, yn hen dduwinyddiaeth neu dduwinyddiaeth newydd, mae hyn oll yn ddibwys mewn cymhariaeth i'r cwestiwn, pa un a ydyw yn fyw o gydymdeimlad dynol a ffydd Ddwyfol, gyda chariad at ddyn a chymdeithas â Duw —yn fyw gyda'r nerth hwnw sydd yn galluogi i ddwyn, nid yn unig

wirionedd, ond Duw ei Hunan, y Bywyd-roddwr cyffredinol, i gyffyrddiad uniongyrchol a phersonol ag eneidiau dynion, gan ddwyn dyddanwch i'r rhai sydd yn galaru, goleuni i'r rhai sydd mewn tywyllwch, nerth i'r rhai sydd wan, a bywyd i'r rhai sydd mewn anobaith ac yn angeu. N. Y., *Christian Union.*

YR YMOFYNYDD.

O herwydd prinder amser a gormod gwaith, mae y Golygydd yn gorphen ei swydd gyda'r rhifyn presenol; ond da ganddo hyspysu fod y Parch. J. Hathren Davies, Cefncoed, i ymgymmeryd â'r Olygiaeth gyda rhifyn Ionawr, yr hwn a ellir ei ddysgwyl ar yr amser arferol. Dymunwn i Mr. Davies lwyddiant mawr yn ei anturiaeth, a gobeithiwn y ca efe annogaeth a chydymdeimlad, a help, o leiaf gan ein cyfeillion ienainc. Gadawer i ddylanwad mudiad "Cymru Fydd" gael cyffwrdd hefyd â'r YMOFYNYDD.

Y GOLYGYDD.

Mae yr hen Olygydd wrth ymddiswyddo yn apelio yn daer at bawb i barhau eu help i'r Golygydd newydd, a charai yn fawr weled fod cyfoedion Mr. Davies yn dyfod allan yn gryf, fel na byddo i'w anturiaeth bresenol fethu o herwydd diffyg cydymdeimlad a chynnorthwy ar eu rhan hwy. *All hands* felly *upon deck*, gyda *long pull, a strong pull, and a pull altogether.*

TRYSORFA Y DYNION IEUAINC.

Y mae yn wybyddus i rai ein bod wedi dal y swydd o ysgrifenydd y drysorfa i helpu dynion ieuainc i'r weinidogaeth oddiar 1864, ac yr ydym yn teimlo y gall fod yn lles i'r drysorfa, heblaw bod yn ysgafnhad ar feichiau a deimlwn eu bod yn trymhau bob blwyddyn, fod ereill i gymmeryd i fyny y baich hwn yn awr. Da genym hyspysu fod y Parch. R. C. Jones, Llanbedr, wedi ei bennodi yn ysgrifenydd, a Mrs. Evans, Taliesin House, Lampeter, yn drysorydd. Gobeithiwn y ca'r swyddogion newydd fodd i ymgalonogi yn fuan yn eu swydd. Eisieu arian sydd, a dylid eu cael cyn y Nadolig. Ystyriwn fod y drysorfa wedi bod yn help i lawer o ddaioni yn y gorphenol; na fydded i'r do bresenol fod yn llai ystyriol o'r cyfleusdra sydd ganddynt i helpu gwaith da.

CYMRAEG A SAESNEG.

Y mae ein dynion ieuainc yn ddoeth wrth geisio meistroli y Saesneg, ond yn annoeth iawn i beidio meistroli y Gymraeg hefyd.

Dysgwch y ddwy, blant, a byddwch ddwywaith yn well oblegyd hyny. Beth all fod yn fwy truenus na bod Cymry ieuainc yn colli swyddi pwysig o herwydd anwybodaeth o iaith eu mam. Dylai pob Cymro allu ysgrifenu Cymraeg a Saesneg yn dda, o leiaf, dylai ymdrechu at hyny! ac os gall, ychwaneged at hyny *French* a *German*, a *Short-hand*. Darllenwch, myfyriwch, gorchfygwch anhawsderau. Sylwch fel y mae yr Ysgotyn yn llanw swyddi pwysig yn mhob man. Beth am y Cymro?

LLENYDDIAETH CYMRU.

P'am na fyddai ein dynion ieuainc yn fwy awyddus i berchenogi llyfrgelloedd, ac esgyn i fyny ar hyd grisiau dysg? P'am yr ydym yn gadael hyd y nod i'n Cymraeg i fod yn llaw dyeithriaid? Yn mha le y mae'r dynion mwyaf hyddysg mewn llenyddiaeth Gymraeg heddyw? Nid yw y Cymro etto wedi sylweddoli y swyn sydd yn y gair *excelsior*. A ydyw llosgi tybaco ac yfed diodydd meddwol i barhau i fod yn nodweddion dynion ieuainc Cymru o hyd? A oes dim perygl, gyda manteision ychwanegol ein hysgolion lluosog, y gallwn ni fod ar ol etto, yn unig o herwydd nad ydym wedi gwrteithio y chwaeth at ddarllen? Ieuenctyd, darllenwch!

LLENYDDIAETH Y SAESON.

Llenyddiaeth y Sais yw y gyfoethocaf a welodd y byd erioed; ond pa faint wyr y Cymro am dani? Mae llyfrau yn ddigon rhad yn awr. Gellir cael rhai o'r *English Classics* goreu am dair neu chwe cheiniog y gyfrol, a gellir prynu hen lyfrau wrth y llath, bron, a hyny yn rhad iawn. Ni fu erioed y fath fanteision addysg ag sydd heddyw. Y cwbl sydd yn eisieu yw penderfyniad a dyfalbarhad. Mae yr "ysgol" gerllaw, ac yn gwahodd pawb i esgyn. Ystyr athrylith (*genius*), yw "*the talent for taking pains.*" Y *plodder* o hyd sydd yn ennill.

MRS. BOOTH AR YR IACHAWDWR.

"Mae lle i ofni fod miloedd yn edrych ato [yr Iachawdwr] i'w hachub rhag canlyniadau pechod—hyny yw, uffern—y rhai ydynt yn parhau i gyflawnu pechod; y maent yn hollol gamddeall amcan a gwaith Crist Duw. Nid ydynt yn gweled iddo Ef ddyfod i'r byd nid yn unig i ddwyn dynion i'r nefoedd, ond hefyd i'w dwyn yn ol i gydgordiad a'r Tad; edrychant ar yr Iawn fel math o gynllun *shift* trwy yr hwn y maent hwy i gael myned i mewn i'r nefoedd, tra yn eu gadael heb eu newid ar y ddaear. Anughofiant fod pechod yn ddrwg llawer

mwy yn ngolwg Duw nag uffern; nid ydynt yn gweled mai pechod yw y drwg gwreiddiol. Pe na byddai dim pechod, ni fyddai angen am uffern. Y mae Duw yn golygu achub dynion oddiwrth ganlyniadau pechod yn unig trwy eu hachub oddiwrth y pechod ei hunan, a dyma waith mawr nodweddiadol Crist—i achub ei bobl oddiwrth eu pechodau."

Dymunwn bob llwyddiant i Mrs. Booth a'r General a'i fyddin i daenu'r gwirionedd pwysig uchod sydd yn cael ei anwybyddu gymmaint gan yr eglwysi poblogaidd.

Dyma rai o eiriau Thomas Carlyle pan fu farw ei wraig:—"Yr wyf wedi fy nghrymu dan dristwch trwm, ac y mae galar yn dysgu i mi unigedd anfarwol bywyd, pan nad yw cyssur neu gynghor yn dda i ddim, oddieithr a gaffo dyn ynddo ei hun, a dim llawer yno, ond pan ddygir yr argyhoeddiad i fewn arno fod yn y dirgelwch a'r tywyllwch bob peth yn cael ei reoli gan Un, y mwyaf doeth a'r mwyaf da, ac y dysgir ef i ddywedyd yn ei galon, 'Dy ewyllys Di a wneler!' Nid oes dim llawer o angen am un weddi arall ond hona."

Yr wyf yn credu y cewch yn mhob hanes fod crefydd wedi bod wrth sylfaen yr oll o honynt, ac nid oes un genedl ag nad yw wedi dwysfyfyrio ar y bydysawd rhyfeddol hwn gyda theimlad synfawr a pharchus fod yno Fod mawr anadnabyddus, hollalluog, hollddoeth, a hollrinweddol, yn goruwchreoli pawb dynion ynddo, a phob buddiannau ynddo—ni ddaeth un genedl erioed i ryw lawer, nac un dyn ychwaith, ag a annghofiodd hynyna,—*T. Carlyle wrth fyfyrwyr Prif Ysgol Edinburgh.*

Nid yw yr adgyfodiad ond bore yfory marwolaeth, a phan feddyliom am y bedd, dylem feddwl am dano megys, yn nyddiau ein maboed, y meddyliem am ein gwely pan yr ymneillduem iddo dros y nos, yn dysgwyl ein brawd hynaf i alw arnom a'n cymmeryd gydag ef ar daith o bleser."—C.L.

Nodiadau ar Lyfrau.

Dowlais.—Cynnaliwyd gwyl dê flynyddol yr eglwys hon Hydref 6ed, pan y cymmerodd dros 500 ran. Yr oedd yr ystafell wedi ei haddurno yn ddestlus, a gwasanaethwyd gan gyfeillion yr achos yn ffyddlon iawn yn mhob cyssylltiad, fel y trodd yr oll allan yn llwyddiant perffaith. Cafwyd cyngherdd yn yr hwyr, a chyflwynwyd *time-piece* gwerthfawr i Mr. T. M. Lewis, fel arwydd o barch am ei lafur gyda'r *harmonium* yn ystod y pum' mlynedd diweddaf. Cyflwynwyd yr anrheg gan Mr. James Evans, a llongyfarchwyd y brawd ieuanc gan y gweinidog ar ei lwyddiant gyda'r gwaith da.

Mae Doctor Duwinyddiaeth mewn papyr Americanaidd, yn rhoi gair o ochr Adda. Tybia ei fod wedi cael llawer iawn o gam.

Nid ydys wedi ystyried yn ddigonol ei sefyllfa a'i anfanteision. Ymddengys ei fod wedi ei eni yn amddifad ac yn ei lawn oed. Ni wyddai erioed beth oedd pleser mabandod; ni chafodd erioed brofi cariad na chynghor mam; cychwynodd ar ei yrfa yn hollol ddibrofiad, a gall hyny gyfrif i raddau am ei ymddygiad anhapus, &c., &c. Peidiwch bod yn rhy galed ar Adda gyfeillion.

Yr iachawdwriaeth, fe'i dygir oddiamgylch yn raddol, a hyny trwy ddwyn dyn i gydgordiad a Duw. Try annogaeth i weithredoedd da, trwy gosp, trwy gystudd, llawenydd a thristwch, mawl a gweddi, y gwneir ni yn un a Duw a Christ, ac y tueddir ni i ufuddhau i'r ddeddf nefol. Dyma'r fel yr ydym yn cael ein hachub yn y bywyd sydd yr awr hon ac hefyd yn yr un a ddaw.

Cred yr Undodiaid yw fod y Beibl yn cynnwys gair Duw, nid fod pob gair yn y Beibl yn gywir air Duw.

Tybir y bydd ein *bill* eleni am wyau tramor, yn ol dimai yr un, yn agos £2,300,000.

Dywedir fod *carrots* (cloron cochion) yn effeithio yn uniongyrchol ar yr afu, ac felly, yn hynod iachus wedi eu berwi.

Mae natur dyn, ebe Bacon, yn rhedeg naill ai i lysiau neu i chwyn; am hyny, dylai ddyfrau y naill yn ofalus a dinystrio y llall.

Beth nesaf?—Mae y Zeitgeist yn amlwg yn arwain i gyfeiriad gwahanol i Mr. Spurgeon, ac nid yw ryfedd am ei flinder yspryd. Ddwy flynedd yn ol, sefydlodd y Parch. Bird Wilkins, dyn ieuanc, dyn du, yn weinidog ar gynnulleidfa o bobl dduon yn Chicago, sef yn Bethesda, Capel y Bedyddwyr. Yn ddiweddar, cafodd Mr. Wilkins ei fod yn Undodwr, ac fel yr oedd yn naturiol iddo, ymddiswyddodd. Y canlyniad yw, fod mwy nâ thri chwarter o'r gynnulleidfa wedi ei ddylyn.—*Chicago Unity, Oct.* 15.

Wele yn canlyn y dyfyniadau a ddygasant y gwobrwyon a gynnygiwyd gan y *Literary News* (America) allan o weithiau Henry Ward Beecher. Yr oedd 73 o ymgeiswyr, a'r dyfyniadau hyn a gawsant y bleidlais uwchaf:—O bob brwydrau, nid oes dim yn debyg i frwydrau annghofnodedig *(unrecorded)* yr enaid.—Blodau ydynt y pethau melusaf a wnaeth Duw ac yr annghofiodd osod enaid ynddynt.—Os yw dyn yn addas i fyned yn nwch, fe ddengys hyny drwy fod yn ffyddlon lle y mae.—Gwnaiff llyfrau oroesi ymherodraethau. Ehedant heb adenydd, rhodiant heb draed; tai i gyfarfod ag angen ydynt, ac heb arian ac heb werth, yn porthi dynion yn dyoddef oddiwrth newyn enaid; torthau yn cynnyddu fel y maent yn cael eu tori, ac ar ol porthi miloedd, yn barod i borthi miloedd mwy.—Yr hwn sydd yn anffyddlon i'r ddyledswydd bresenol, y mae yn tori edefyn yn ngwŷdd amser, ac fe gaiff y diffyg allan pan, o bossibl, y bydd wedi annghofio yr achos.—Ni wnaeth Duw ddynion yn berffaith, ond gwnaeth hwy yn bereiniion yn ceisio ar ol perffeithrwydd.

Pabydd oedd Daniel O'Connell, ond yr oedd yn gallach na hanner y Protestaniaid sydd yn methu gweled dim daioni mewn Pabyddiaeth. Fel hyn y dywedai Dan:—"Mewn gwir mae pob crefydd yn dda—mae pob crefydd yn wir iddo ef sydd gyda dyledus ofal a chydwybod yn ei chredu. Nid oes ond un grefydd ddrwg—sef eiddo y dyn sydd yn proffesu ffydd nad yw yn ei chredu; ond fe ddichon crefydd dda gael ei llygru gan y rhagfarnau truenus a gwael ydynt yn cymmeryd gwahaniaeth opiniwn fel achos digonol i gasineb."

DYMUNIAD

Am weled ein gweinidogion yn arwain eu cydwladwyr i geisio eu breiniau gwladol.

O! na welwn I heuliau—y Gwir yn
Gewri unol-enau,
Yn fforddio, pwyntio i'w pau
Union dŵr ein hiawnderau.

Hwylied y cyfryw heuliau—ein rhyddid,
Gan hyrwyddo'i gamrau
Hyd pob bryn a glyn (yn glau)
O'n bro anwyl â'n breiniau.

Yn gynhes breiniolaeth ganaid—draethont
Hyd yr eitha'n danbaid;
A bywus, hoenus enaid
Eu ple fo rhyddid pob plaid.

Honi'n hyf i weinion hefyd—eu hawl
I'w meddyliau bobpryd;
Safle yw hyn ddisyflyd
(Rhodd Duw i bawb) rhyddid byd.

Ein gorau, fel dynion gwrol,—wnelom
Yn hwylus a brawdol,
'Gael pob plaid o laid eu lol
I glydwch rhyddid gwladol.

—*Cynonwyson.*

Dywedir fod sect y crynwyr (*shakers*) yn America, mewn cyflwr o ddarfodedigaeth. Credent unwaith y byddai iddynt trwy eu cryndod (!) achub y byd. Fel hyn y canai un o'u hemynau :—

All the world will have to say
Shaking is no foolish play.

Yn ol y Parch. J. W. Horsley, mae 50 yn y cant o droseddau i'w priodoli yn uniongyrchol i feddwdod, a 25 yn y cant yn ychwaneg yn anuniongyrchol.

Cristionogaeth ydyw crefydd caracter, cwrtaith cariad.

PRIODASAU.

Hydref 12, yn Swyddfa y Cofrestrydd, Llanbedr, Mr. Jno. Davies, Hendai, â Miss Elizabeth Lloyd, Dolgwm-uchaf—y ddau o Blwyf Pencarreg.

Hydref 22, yn Brondeifi, Mr. Thomas Davies, Brongest, Llanbedr, â Miss Margaret Evans, Pencaeau, Pencarreg.

Marwgofion.

Gorphenaf 28ain, yn dair blwydd a hanner oed, Rachel Anne, merch Benjamin ag Anne Evans, 40, Victoria Street, Miscin, Mountain Ash. Claddwyd hi y dydd Sadwrn canlynol yn *Cemetery* Mountain Ash. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar, ac yn cael ei gynnorthwyo gan Mr. Jones, gweinidog y Bedyddwyr yn Penrhiwceibr.

Hydref y 24ain, yn 5 mlwydd a 7 mis oed, bu farw Mary Caroline, merch henaf Mr. a Mrs. Evans, yn awr o Gaerdydd, ond gynt o Tregroes, Llandyssul. Ni chafodd y fechan ymadawedig ond cystudd byr, ond bu yn drwm iawn am rai oriau cyn ei marwolaeth. Yr oedd y ferch fechan hon yn hynod ffraeth a gobeithiol, yn oranwyl gan ei thad a'i mam, ac yn hoff iawn gan bawb a'i hadwaenai. Mae y pennill canlynol yn ei *mourning card* yn ddesgrifiadol iawn o honi :—

"This lovely bud, so young and fair,
Called hence by early doom ;
Just came to show how sweet a flower,
In paradise may bloom."

Dygwyd y corff bychan gyda'r gerbydres hyd orsaf Llandyssul, nos Fercher. Yr oedd torf fawr o berthynasau a chyfeillion wedi d'od yn nghyd yno, a chludwyd yr un fechan oddiyno i Tregroes—i dy ei mamgu i aros dros y nos. Dranoeth, dydd Iau, y 27ain, hebryngwyd hi i fynwent Pantdefaid i orwedd yn ochr ei thadcu, y diweddar Mr. David Evans, Tregroes Shop, gwr parchus, defnyddiol a dylanwadol yn ei gymmydogaeth, un o golofnau cadarnaf eglwys Pantdefaid, a'r cyntaf o'r teulu i orphwys yn y fangre hon. Darllenwyd a gweddiwyd yn y ty gan y Parch. William James, B.A., a chyflawnwyd gweddill y gwasanaeth yn y capel ac ar lan y bedd gan y Parch. T. T. Traddodwyd y bregeth angladdol y Sul canlynol gan yr un.

Tachwedd 5, Job Davies, Factory, Pentregwenles, Llandybie. Bu farw Mr. Davies pan ar ei ddychweliad adref o Gaerfyrddin tra yn aros i newid y trên yn ngorsaf Llandeilo. Yr oedd wedi bod yn ganolig ei iechyd er ys rhai misoedd, ond teimlai ei hun yn well ar y Sadwrn neillduol hwn. Yr oedd dau o'r *porters* yn edrych arno yn ei gyfyngder olaf, a thybient iddo basio hwnt i'r llen heb deimlo poen marw. Yr oedd Mr. Davies yn adnabyddus i luaws o ddarllenwyr Yr Ymofynydd, fel un ag oedd yn teimlo yn wresog dros yr achos Undodaidd, ac fel un o'r rhai mwyaf ffyddlon yn yr Onen Fawr. Ond y mae y brawd serchog a charuaidd, ffraeth ac awengar, wedi gorphen ei daith ddaearol, ac wedi myned oddiwrth ef waith at ei wobrwy. Bu am flynyddau yn dosparthu Yr Ymofynydd.

Tachwedd 14, David Jones, Clive Place, Aberdar, yn 54 oed. Dyn mor dawel, diniwed, a di-son-am-dano ag y gellid gwrdd mewn siwrnai ddiwrnod. Cwrddodd â'i ran o drallod y byd. Collodd ei wraig fwy nag ugain mlynedd yn ol, a'i unig fab pan oedd hwnw yn mron cyrhaedd ei lawn oed. Wele yntau yn awr wedi pasio hwnt i'r llen. Coffa da am dano.

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.

AT EIN DERBYNWYR.

TALIADAU.—Rev. J. W., Panteg.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Mill Street* Post Office, ac yn enw R. J. Jones, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

TELERAU:—Pris 3c., trwy'r post, 3½c.; ar dri rhifyn a thrôsodd telir y cludiad.

D.S.—Taliad yn ddyledus gyda'r rhifyn hwn.

☞ Yr ydym yn taer ddymuno ar bawb i anfon eu taliadau i fewn cyn gynted ag y byddo yn gyfleus iddynt; yr holl ddyledion hyd ddiwedd y flwyddyn at

THE EDITOR OF "YR YMOFYNYDD,"
MEIRION COTTAGE,
ABERDARE.

☞ Anfoner pob gohebiaethau yn gynnar yn y mis at

REV. J. HATHREN DAVIES,

CEFNCOED, MERTHYR.

UNDODIAID Y DEHEUBARTH.

Cynnelir y Cyfarfod Chwarterol nesaf yn Pantdefaid, ar y dydd Iau cyntaf ar ol Nadolig, sef y 29ain o'r mis hwn (Rhagfyr). Bydd cwrdd hefyd y nos o'r blaen, i ddechreu am 6. Boreu dydd Iau bydd y cwrdd i ddechreu am 10. Y pregethwr, y Parch. R. J. Jones, A.M., Aberdar. Pwnc y Gynnadledd, "Duwinyddiaeth a Chrefydd—y gwahaniaeth rhyngddynt os oes dim." Darllenir papyr arno gan y Parch. J. Hathren Davies. Gobeithio y bydd y gweinidogion oll yn fyw ac yn iach, yn *proof* i'r hin, ac yn bresenol. Bydd cerbydau mewn amser i gyfarfod y *train* 4 yn Llandyssul, prydnawn dydd Mercher.—T. T.

CAPEL CRIBIN, SIR ABERTEIFI.

Cydnabyddwyd eisioes, £178 8s. Mary Morgans, Cornbwt, 2s. 6ch.; Simon Evans, Tynwaun, 2s.; T. H. Thomas, Tailor, Llanybyther, 2s. 6ch.; Evan Jones, Waunani, 5s.; T. Evans, Cwmanne, 1s.; Thos, Thomas, Cwmdyllest, 5s.; T. Davies, Hendy Neuadd, 5s.; B. Jones, Tynewydd, 2s. 6ch.; Rev. R. J. Jones, Aberdare, £2 2s.; Edward Jones, Ceginan, 10s.; Mrs. Thomas, Llysfaenisa', 2s. 6ch.; David Thomas, etto, 2s. 6ch.; Elizabeth Thomas, etto, 2s. 6ch; Margaret Thomas, etto, 2s. 6ch.; Josuah Evans, Maesmynach, 5s.; David Davies, Penrhiw, 10s.; Morgan Jones, Castle Green, 2s. 6ch. Casglwyd gan John Jenkins, Tynberth:—T. Evans, Treberfedd, 3s.; D. Davies, Lluast, 2s. 6ch.; Hannah Jenkins, Tynberth, 3s.; Griffith Jenkins, etto, 2s. 6ch.; Evan Jones, Cwmysgawen, 2s. 6ch.; Elizabeth Howells, Dolboidy, 2s. 6ch.; Mrs. Evans, Pensarnfach, 10s.; D. Evans, etto, 2s. 6ch.; Elizabeth Jones, etto, 1s.; Sarah Davies, etto, 6ch.; Thomas Lewis, etto, 2s.

TRYSORFA ADDYSG Y DYNION IEUAINC.

Pob Tanysgrifiadau i'w hanfon i Rev. R. C. JONES, Lampeter